# Cyngor Cymuned Tudweiliog
## Tudweiliog Community Council

Heulwen Williams
Clerc/clerk
01758 770415

Pen Cefn,
Dinas,
Pwllheli.
LL53 8UB

Cofnodion Cyngor Cymuned Tudweiliog a gynhaliwyd yn y Ganolfan Nos Lun 9fed Rhagfyr2019

Presennol: Henry Hughes, Sian Parri, Medwyn Jones, Gareth Jones, Alan Hughes, John Davies, Terry Hughes
Ymddiheuriadau: Humphrey Williams, Seimon Glyn

1. Cadeiriwyd gan Sian Parri ac estynnodd groeso i bawb, yn arbennig i Terry Hughes fel Cynghorydd newydd.

2. Derbyniwyd y cofnodion diwethaf fel rhai cywir.

3. **Materion yn codi o'r cofnodion**:

a. Mynwent Tudweiliog – Gan mai ystyried y mater ariannol oedd angen yn gyntaf, penderfynnwyd ei ystyried wrth drafod y Praespet ar ddiwedd y cyfarfod – ac yna byddwn yn trafod faint o gyfraniad i'w roi pan yn rhannu'r Praesept ym mis Mawrth.
Trafodwyd ymhellach cyfrifoldeb y Cyngor Cymuned tuag at y Fynwent Newydd, gan gadarnhau unwaith eto mai Cyngor Cymuned yw ymddiriedolwyr y fynwent. Wrth ystyried hyn, cynigwyd mai da o beth fyddai cynnal cyfarfod cyhoeddus i drafod dyfodol y fynwent. Bydd hyn yn digwydd mis Ionawr 2020

b.Arwyddion Porth Colmon – Dywedodd Medwyn Jones iddo siarad hefo perchennog y tir ple bydd yr arwyddion yn cael eu gosod, gan ofyn iddo am dystiolaeth o'r perchnogaeth. Yn anffodus doedd dim tystiolaeth ar gael. Penderfynnwyd y bydd y Clerc yn trefnu cyfarfod hefo'r adran gyfreithiol Cyngor Sir Gwynedd, ac y dylai Medwyn Jones, Sian Pari, Seimon Glyn a'r Clerc fod yn bresennol.

c. Ffordd ger Siop y Bont Llangwnnadl – Cafwyd ymateb gan Iwan ap Trefor o'r adran ffyrdd Cyngor Gwynedd fel a ganlyn:

‘Mae’n amlwg bod y ffordd yn culhau dros y bont. Mae’r ffordd o’r ddau gyfeiriad, sy’n arwain at y bont wedi ei wyro i reoli cyflymder wrth i gerbydau dynesu at y lleoliad.  Felly, mae cyflymderau cerbydau at y bont yn cael eu rheoli gan natur y ffordd.
Mae’r gwelededd ar y ddau ochr i’r bont wedi’i rwystro’n bennaf gan goeden sydd wedi’i lleoli yn y tir ar yr ochr. Mae hyn yn golygu nid yw’n bosib gosod system blaenoriaeth yn y lleoliad, er hyn rydym yn cytuno y byddai diogelwch ar y rhan yma o ffordd yn elwa trwy osod marciau Araf ar y ddau ben”

ch. Lon ger Bryniau Edern – Cafwyd ymateb fel a ganlyn:
‘Mae’r Archwiliwr Priffyrdd wedi archwylio’r safle, ond mae’r ‘manhole’ y cyfeirir ato yn perthyn i British Telecom felly nid yw yn ran o’r broblem llifogydd.
Bwriedir gwneud draen newydd i dynnu’r dwr sy’n sefyll i dir cyfagos gyda chaniatad/cydweithrediad perchennog y tie. Bydd yr Archwiliwr Priffyrdd yn cysylltu gyda’r perchennog a threfu’r gwaith pan mae adnoddau ar gael”

4. **Gohebiaethau:**

a. Bioamrywiaeth – Eglurodd y Cadeirydd i’r Cynghorwyr beth oedd dyletswydd y Cyngor wrth ystyried bioamrywiaeth.  Yn ogystal a hyn bydd y Clerc yn cysylltu a Un Llais Cymru i holi os oes templed o bolisi ar gael fel y byddai’r cyngor Cymuned yn gallu ei ddilyn.

b. Anfoneb BDO – Derbynnwyd anfoneb gan BDO am £255.25 pasiwyd i’w dalu.

c.  Llywodraeth Cymru – Derbynwyd llythyr yn datgan mai Gwariant Adran 137 ar gyfer 2020 – 21 yw £8.32

ch.Praesept 2020-21 – Penderfynnwyd codi’r praesept i £8000.00

d. Cais Cynllunio C19/1090/46/DT Ty Coch Llangwnnadl – Dim Sylwadau

dd. Cais Cynllunio C19/1104/46/DT Bryn Tirion Penllech Tudweiliog- Dim Sylwadau

5. **Unrhyw fater arall**

a/ Deallwyd fod asiant newydd stad Cefnamlwch wedi bod yn hysbysebu ty gwag gyda arwydd "ToLet" – penderfynnwyd mai da o beth fyddai cysylltu a'r asiant a gofyn iddynt wybyddu'r Cyngor Cymuned tro nesaf bydd ty yn mynd yn wag, fel y gall y Cyngor Cymuned wybyddu'r gymuned yn gyntaf.

CYNHELIR y CTFARFOD NESAF AR 13eg Ionawr 2020
YNG NGHANOLFAN TUDWEILIOG AM 7.15yh